# Radio Cymunedol: dull gweithredu yn y dyfodol o ran y Prif Ymrwymiadau

Datganiad ar gynnig Ofcom i symleiddio'r Prif Ymrwymiadau

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 13 Tachwedd 2024

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ........ 3

2. Cefndir ........ 4

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ........ 5

4. Y camau nesaf ........ 16

## Atodiad

A1. Egwyddorion cydymffurfio ........ 17

# 1. Trosolwg

1.1 Mae’r ddogfen hon yn nodi’r newidiadau y mae Ofcom yn eu gwneud i’r Prif Ymrwymiadau sydd wedi’u cynnwys mewn trwyddedau radio cymunedol.

1.2 Mae gwasanaethau radio cymunedol sy’n darlledu ar FM neu AM (analog) yn darparu budd cymdeithasol a manteision cymunedol eraill ar sail nid-er-elw.

1.3 Rhaid i bob gorsaf ddarparu’r gwasanaeth sydd wedi’i ddisgrifio yn ei thrwydded, sy’n seiliedig ar gynigion yr orsaf yn ystod y broses o wneud cais am y drwydded. Enw’r disgrifiadau gwasanaeth hyn sydd wedi’u cofnodi mewn trwyddedau radio cymunedol yw’r ‘Prif Ymrwymiadau’.

1.4 Ym mis Mawrth 2024 fe wnaethom ymgynghori ar gyfres o gynigion i symleiddio’r Prif Ymrwymiadau drwy ddileu cwotâu wythnosol penodol. Yn yr ymgynghoriad, roeddem yn nodi ein barn bod fformat presennol y Prif Ymrwymiadau yn canolbwyntio’n ormodol ar gwotâu penodol yn hytrach nag agweddau ansoddol trwyddedau radio cymunedol, sef cymeriad y gwasanaeth (sy’n diffinio sut mae gorsaf yn swnio ac ar gyfer pwy mae) a gofynion budd cymdeithasol. Ein barn ni, ynghyd â’r adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn y sector radio cymunedol, oedd bod yr agweddau hyn ar y Prif Ymrwymiadau yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth fodloni’r gofynion craidd, ac y byddai eu dileu yn cynyddu hyblygrwydd trwyddedeion yn sylweddol i reoli eu hadnoddau’n effeithiol.

1.5 Cawsom un ymateb ar hugain i’r ymgynghoriad, ac maent wedi cael eu cyhoeddi (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) ar ein gwefan.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn cefnogi ein cynigion, ac rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen a chael gwared ar y mwyafrif helaeth o gwotâu’r Prif Ymrwymiadau ar:

- Y mathau o raglenni i'w darlledu, ee y prif fathau o allbwn cerddoriaeth a llafar.
- Nifer yr oriau o allbwn gwreiddiol sy’n cael ei ddarlledu bob wythnos.
- Nifer yr oriau o allbwn wedi’i gynhyrchu’n lleol sy’n cael ei ddarlledu bob wythnos.
- Yr ieithoedd sy’n cael eu darlledu ar y gwasanaeth.

Gan ystyried yr ymatebion a gawsom, rydym fodd bynnag wedi penderfynu datblygu rhai egwyddorion ychwanegol ar gyfer cydymffurfio â gofynion budd cymdeithasol oddi ar yr awyr. Dylai’r newidiadau hyn ddarparu mwy o arweiniad i drwyddedeion wrth iddynt ystyried a ydynt yn cydymffurfio â’u Prif Ymrwymiadau.

Dim ond crynodeb lefel uchel byr yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae’r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

2.1 Mae Ofcom yn dyfarnu trwyddedau radio cymunedol analog, a hynny am wasanaethau sy'n darparu ar gyfer ardal ddaearyddol fach fel arfer. Caiff y gwasanaethau eu rhedeg ar sail nid-er-elw. Maen nhw'n gallu darparu ar gyfer cymunedau cyfan neu feysydd diddordeb gwahanol – fel grŵp ethnig, oedran neu ddiddordeb penodol. Mae'r trwyddedau'n para am hyd at bum mlynedd ar y tro ond gellir eu hymestyn. Mae llawer o wahaniaethau rhwng gorsafoedd radio cymunedol unigol ac mae'r sector yn cynnwys nifer o orsafoedd bach, oll dan berchnogaeth unigol.

2.2 Pan oedd Ofcom yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol yn y gorffennol, gwnaethom asesu'r ceisiadau yn erbyn cyfres o ofynion statudol. Er mai dim ond adeg gwneud y cais y mae angen ystyried rhai o'r rhain, mae eraill yn berthnasol gydol cyfnod llawn trwydded radio cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion mewn cysylltiad â budd cymdeithasol a chymeriad y gwasanaeth sydd i'w ddarlledu. I wneud yn siŵr bod gwasanaethau unigol yn bodloni'r gofynion hyn, maen nhw cael eu cynnwys yn nhrwyddedau radio cymunedol fel Prif Ymrwymiadau. Mae deddfwriaeth hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cynnwys amodau trwydded i sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth trwyddedig, fel y cynigir yn y cais, yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod y drwydded.

2.3 Mae'r Prif Ymrwymiadau yn bwysig ar gyfer sawl rhan o'r drefn trwyddedu radio cymunedol, yn cynnwys cydymffurfio a gorfodi, a phenderfyniadau ynghylch ceisiadau i amrywio trwyddedau radio cymunedol (a gofynion cymeriad gwasanaeth).

2.4 Mae fframwaith cyfreithiol manwl, yn ogystal â rhesymeg lawn dros ein cynigion, wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

2.5 Yn ein hymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, roeddem yn ceisio barn ar gynigion i symleiddio Prif Ymrwymiadau gwasanaethau radio cymunedol analog, a fyddai'n dileu gofynion penodol ynghylch y mathau o gynnwys cerddoriaeth a llafar y mae'n rhaid i orsafoedd eu darlledu bob wythnos, yn ogystal â dileu cwotâu o ran faint o allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn lleol sydd i'w ddarlledu bob wythnos. Ein hamcan wrth gyflwyno'r cynigion hyn oedd dileu cwotâu anhyblyg, a oedd yn defnyddio llawer iawn o adnoddau trwyddedeion ac Ofcom, tra'n diogelu cymeriad craidd y gofynion gwasanaeth a'r rhwymedigaethau budd cymdeithasol a roddir ar drwyddedeion radio cymunedol.

2.6 Roeddem hefyd yn cynnig rhai egwyddorion cydymffurfio cyffredinol. Gwnaethom egluro mai bwriad y rhain yw darparu rhywfaint o egwyddorion lefel uchel i drwyddedeion eu cadw mewn cof wrth ystyried a ydynt yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Gwnaethom egluro hefyd ein bod yn bwriadu ystyried yr egwyddorion hyn wrth benderfynu a ddylid agor ymchwiliad ffurfiol i achos posib o drwyddedai yn torri ei Brif Ymrwymiadau, neu fel rhan o unrhyw ymchwiliad ffurfiol o'r fath.

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

3.1 Cawsom un ymateb ar hugain i'r ymgynghoriad, gan amrywiaeth o grwpiau ac unigolion. Cawsom ymatebion gan gyrff cynrychioliadol y sector radio cymunedol, y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ('CMA') a Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU ('UKCRN'), yn ogystal â Radiocentre, y corff sy'n cynrychioli'r sector radio masnachol. Cawsom ymatebion hefyd gan dair ar ddeg o orsafoedd radio cymunedol (Angel Radio, Ashdown Radio, Cross Counties Radio, Dales Radio, DevonAIR Radio, GTFM, Oldham Community Radio, Radio Saltire, RWSfm, Thornbury Radio, Winchester Radio a dwy orsaf a oedd yn dymuno aros yn ddienw), dau sefydliad a oedd yn gysylltiedig â'r sector radio cymunedol (Better Media a Maxxwave), un ymateb gan sefydliad a oedd yn dymuno aros yn ddienw a dau ymateb gan unigolion.

3.2 Mae'r pwyntiau perthnasol a wnaed mewn ymateb i bob cynnig wedi'u crynhoi isod, ynghyd â'n hystyriaeth o'r pwyntiau hyn a'n penderfyniad ynghylch pob cynnig.

## Gofynion cerddoriaeth

3.3 Yn ein hymgynghoriad, roeddem wedi nodi cynnig i ddileu gofynion genres cerddoriaeth penodol o drwyddedau radio cymunedol. Fe wnaethom egluro ein barn nad yw gofynion cerddoriaeth yn ganolog i gymeriad gwasanaeth radio cymunedol, ac eithrio gorsafoedd sy'n seiliedig ar genre penodol. Fe wnaethom egluro y byddai dileu'r gofynion hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i drwyddedeion, a hynny'n barhaus o ran rheoli rhaglenni cerddoriaeth arbenigol, ac yn y tymor hwy i addasu eu hallbwn cerddoriaeth i anghenion newidiol cynulleidfaoedd.

3.4 Roedd y mwyafrif clir o'r ymatebion a gawsom yn cefnogi'r cynnig hwn. O'r un ymateb ar hugain, roedd dau ar bymtheg yn amlwg o blaid ein cynnig. Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at ffactorau fel hyblygrwydd o ran adnoddau, llai o faich o ran delio â chwynion am genres cerddoriaeth penodol, a'r gallu i addasu fformatau cerddoriaeth dros amser i adlewyrchu newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd.

3.5 Roedd ymateb Better Media yn nodi ei bryderon y byddai dileu gofynion cerddoriaeth yn arwain at homogeneiddio cynnwys, gan danseilio amrywiaeth a chymeriad unigryw radio cymunedol o'i gymharu â darparwyr eraill yn y farchnad radio. Tynnodd Radiocentre sylw at y pryder hwn hefyd, gan ddadlau y gallai'r cynnig hwn arwain at 'ddrifft o ran cenhadaeth' mewn rhannau o'r sector radio cymunedol, gyda rhai gorsafoedd yn mynd yn debyg i orsafoedd masnachol lleol, yn hytrach na darparu gwasanaethau unigryw fel y sefydlwyd radio cymunedol i'w wneud.

3.6 Roeddem yn cydnabod yn ein hymgynghoriad y gallai dileu gofynion fformat cerddoriaeth arwain, yn gyffredinol, at orsafoedd yn darlledu mwy o gerddoriaeth prif ffrwd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, lle mae cerddoriaeth arbenigol yn rhan arbennig o bwysig o gymeriad gwasanaeth gorsaf (er enghraifft gorsafoedd sy'n seiliedig ar genre), byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngofynion cymeriad gwasanaeth yr orsaf. Mae paragraff (e) ein hegwyddorion cydymffurfio (a nodir yn Atodiad 1) hefyd yn egluro bod yn rhaid i'r trwyddedai, lle mae rhaglennu arbenigol yn cael ei gynnwys ym

Mhrif Ymrwymiadau gwasanaeth, sicrhau bod rhaglennu arbenigol yn cael amlygrwydd priodol.

3.7 Yn gyffredinol, rydym o'r farn nad oedd rhanddeiliaid wedi codi unrhyw bwyntiau newydd nad oeddem wedi'u hystyried, ac am y rhesymau a nodir uchod rydym yn parhau i ystyried bod y cynnig hwn yn briodol.

## Gofynion llafar

3.8 Yn ein hymgynghoriad, roeddem wedi cynnig dileu gofynion genres llafar penodol o drwyddedau radio cymunedol. Yn yr un modd â gofynion cerddoriaeth, fe wnaethom egluro mai anaml iawn y byddai mathau penodol o gynnwys llafar yn ganolog i gymeriad gwasanaeth gorsaf, a bod mynnu bod gorsafoedd yn darlledu rhestr benodol o genres bob wythnos yn cyfyngu ar hyblygrwydd trwyddedeion i addasu eu cynnwys dros amser.

3.9 Roedd mwyafrif clir o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig hwn, gydag un ar bymtheg o ymatebwyr o blaid. Roedd y trwyddedeion a ymatebodd o blaid yn tynnu sylw at y gallu i addasu eu cynnwys dros amser i anghenion newidiol cynulleidfaoedd, ac yn pwysleisio'r angen cynhenid i orsafoedd radio cymunedol ddarparu cynnwys sy'n berthnasol yn lleol fel un o ddibenion canolog radio cymunedol.

3.10 Awgrymodd Better Media, sy'n anghytuno â'r cynnig, y gallai dileu'r gofynion hyn arwain at ostyngiad mewn cynnwys sy'n berthnasol yn lleol, a'i gwneud yn anoddach i orsafoedd ymgysylltu'n effeithiol â'u cymunedau. Yn yr un modd â'r gofyniad cerddoriaeth, mynegodd Radiocentre bryderon y gallai'r cynnig hwn arwain at 'fasnacholi' rhai gorsafoedd radio cymunedol.

3.11 Tynnodd rhai ymatebwyr a oedd, ar y cyfan, o blaid y cynnig, sylw at yr angen i sicrhau bod gorsafoedd radio cymunedol yn parhau i ddarparu cynnwys llafar unigryw o ansawdd uchel i'w cynulleidfaoedd. Er enghraifft, dadleuodd Lucinda Guy dros ofyniad newydd ar orsafoedd i ddarlledu amrywiaeth eang o gynnwys llafar sy'n cynnwys gwahanol arddulliau a safbwyntiau.

3.12 Rydym yn cydnabod y gallai dileu gofynion llafar fod â'r potensial i leihau ansawdd ac amrywiaeth cynnwys llafar ar radio cymunedol. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd ein hegwyddorion cydymffurfio, a'n ffocws parhaus ar sicrhau bod gorsafoedd yn bodloni'r gofynion arnynt o ran cymeriad gwasanaeth a budd cymdeithasol, yn sicrhau nad yw'r risg hon yn dod yn ffaith.

3.13 Yn ein hegwyddorion cydymffurfio, rydym yn egluro y byddem yn sicrhau bod unrhyw raglenni llafar arbenigol sy'n arbennig o berthnasol i gymeriad gwasanaeth gorsaf yn cael eu cynnwys yn fformat newydd y Prif Ymrwymiadau. Rydym hefyd wedi cydnabod, yn ein hegwyddorion sy'n ymwneud â chydymffurfio o ran budd cymdeithasol, y gall ac y dylai gorsafoedd fodloni rhai o'u gofynion budd cymdeithasol ar yr awyr drwy raglennu llafar. Yn y ffyrdd hyn, rydym yn disgwyl y bydd cymeriad unigryw'r cynnwys llafar ar radio cymunedol yn parhau i gael ei gyflawni.

3.14 Yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod unrhyw bwyntiau newydd wedi cael eu codi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch rhaglennu llafar, ac rydym yn credu y bydd ein hegwyddorion cydymffurfio yn atal y pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid rhag dod yn ffaith. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn parhau i ystyried ei bod yn briodol cynnig amrywio trwyddedau er mwyn rhoi'r cynnig hwn ar waith.

## Allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol

3.15 Ein cynnig oedd dileu'r gofynion presennol i orsafoedd ddarlledu rhywfaint o allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol bob dydd neu bob wythnos.[1] Yn y ddogfen ymgynghori, fe wnaethom egluro ein bod yn teimlo nad oedd y cwotâu presennol yn ddefnyddiol a'u bod yn aml yn wrthgynhyrchiol, gan eu bod yn gorfodi gorsafoedd i ganolbwyntio ar fodloni gofynion oriau yn hytrach nag ar greu cynnwys difyr, perthnasol ar gyfer eu cynulleidfaoedd. Tynasom sylw hefyd at yr amser sylweddol a dreuliai Ofcom a thrwyddedeion yn delio â chwynion am fymryn o dangyflawni yn erbyn y cwotâu hyn (nad ydym yn teimlo ei fod yn darparu manteision sylweddol i gynulleidfaoedd) ac roeddem yn cydnabod y byddai'r cynigion hyn yn rhoi hyblygrwydd i drwyddedeion sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr fel adnodd, sydd, oherwydd ei natur, yn gallu bod yn anghyson.

3.16 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid dileu'r ddau ofyniad hyn. Roedd un ar bymtheg yn ffafrio dileu gofynion o ran allbwn gwreiddiol, ac roedd pedwar ar ddeg yn cefnogi dileu gofynion o ran allbwn a gynhyrchir yn lleol.

3.17 Roedd ymatebwyr o blaid y cynigion hyn yn cytuno â'r rhesymeg a nodir yn ein dogfen ymgynghori, gan dynnu sylw at yr hyblygrwydd y byddai'r cynigion hyn yn ei roi i orsafoedd radio cymunedol. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai hyn yn caniatáu i orsafoedd ganolbwyntio mwy ar gynhyrchu cynnwys perthnasol o ansawdd uchel (gan gynnwys lle mae'r cynnwys hwnnw'n cael ei ailadrodd), wedi'i gynhyrchu o'r tu allan i ardal y drwydded neu wedi'i rannu â gorsafoedd eraill. Cyflwynodd un ymatebydd enghraifft o orsafoedd mewn rhanbarth penodol (fel Ucheldiroedd yr Alban) yn rhannu rhaglenni perthnasol, a fyddai'n help i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau yn yr ardaloedd gwledig hyn.

3.18 Tynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai o'r rheini a oedd o blaid y cynigion hyn yn gyffredinol, sylw at yr angen i sicrhau bod gorsafoedd yn parhau i gynhyrchu cynnwys penodol sy'n berthnasol yn lleol, ac osgoi gorddefnyddio syndicetio neu ailddarllediadau. Awgrymodd nifer o ymatebwyr a oedd o blaid y cynigion hyn y dylem ganolbwyntio ar sicrhau bod trwyddedeion yn darlledu cynnwys sy'n berthnasol yn lleol, yn hytrach na rheoleiddio ble mae rhaglenni'n cael eu creu.

3.19 Roedd ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion hyn yn cyfeirio at ffactorau tebyg. Dywedodd Better Media, er enghraifft, y byddai dileu'r cwotâu hyn yn arwain at golli cynnwys unigryw, perthnasol a diddorol, gan ddadlau y byddai'r cynigion yn arwain at homogeneiddio cynnwys gyda llai o ffocws cymunedol.

3.20 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr bod cynnwys lleol, gwreiddiol yn ganolog er darparu radio cymunedol yn effeithiol. Heb gynnwys gwreiddiol sy'n berthnasol yn lleol, mae'n annhebygol y gallai gorsafoedd wasanaethu eu cymunedau targed yn effeithiol. Serch hynny, am y rhesymau a nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad ac y tynnodd nifer o ymatebwyr sylw atynt hefyd, credwn nad y cwotâu presennol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau'r cynnwys hwn.

3.21 Yn arbennig, mae ein hegwyddorion cydymffurfio yn mynd i'r afael yn benodol â'r pwyntiau hyn. Rydym wedi datgan ein bod yn disgwyl i bob trwyddedai barhau i ddarlledu allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn lleol, a'n bod yn disgwyl i'r rhan fwyaf o drwyddedeion wneud hynny bob dydd. Megis gyda chynnwys llafar, rydym o'r farn y byddai'n anodd i orsafoedd ddangos eu darpariaeth o fudd cymdeithasol ar yr awyr heb ddarlledu cynnwys gwreiddiol

[1] Mae allbwn gwreiddiol yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei greu gan orsaf ac sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf. Mae allbwn sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol yn cyfeirio at gynnwys sy'n cael ei greu a'i ddarlledu o ardal ddarlledu gorsaf.

sy'n berthnasol yn lleol. Yn yr un modd, er ein bod yn cydnabod bod dileu cwota penodol allbwn a gynhyrchir yn lleol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i drwyddedeion a gwirfoddolwyr, dylai trwyddedeion barhau i flaenoriaethu cyfleoedd i wirfoddolwyr yn yr ardal leol. Rydym wedi egluro hyn yn egwyddor cydymffurfio (h) yn Atodiad 1 isod.

3.22 Ein barn ni yw bod yr egwyddorion cydymffurfio yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys gwreiddiol a lleol ac yn lliniaru'n ddigonol rhag y risg y bydd y pryderon a godwyd gan rai rhanddeiliaid yn dod yn ffaith. Felly, rydym yn dal o'r farn ei bod yn briodol cynnig amrywio trwyddedau er mwyn gweithredu'r cynnig i dynnu gofynion allbwn gwreiddiol ac allbwn a gynhyrchir yn lleol oddi ar drwyddedau.

## Gofynion iaith

3.23 Ar hyn o bryd mae gan nifer o orsafoedd ofynion i ddarlledu mewn ieithoedd lleiafrifol, sy'n adlewyrchu eu cymuned darged neu ran ohoni. Mewn rhai achosion, mae'r gofynion yn rhestru nifer o ieithoedd nad ydynt efallai yn berthnasol yn yr ardal mwyach neu a allai fod yn anodd i orsafoedd eu darlledu lle nad oes gwirfoddolwyr penodol ar gael mwyach. Gan gydnabod yr heriau yn y maes hwn, roeddem yn cynnig dileu'r agwedd benodol hon ar y Prif Ymrwymiadau. Lle'r ydym yn teimlo bod ieithoedd penodol yn bwysig i gymeriad gwasanaeth gorsaf, roeddem yn cynnig ychwanegu hyn at y disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth.

3.24 Cawsom lai o ymatebion i'r cynnig hwn, gan fod nifer o ymatebwyr yn cydnabod nad oedd yn berthnasol i'w gorsaf, neu nad oedd yn fater lle'r oedd ganddynt brofiad perthnasol. O'r ymatebion a gawsom, roedd deuddeg o blaid a dau yn gwrthwynebu.

3.25 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn tynnu sylw at fwy o hyblygrwydd i orsafoedd. Dywedodd rhai gorsafoedd a ymatebodd, fel GTFM ac Oldham Community Radio, y byddent yn hoffi cael yr hyblygrwydd i ddarlledu mewn ieithoedd lleiafrifol o bryd i'w gilydd, neu pan fo adnoddau'n caniatáu, heb i hyn ddod yn agwedd barhaol, benodol o amodau eu trwydded.

3.26 Roedd Better Media yn dadlau yn erbyn y cynnig, gan ddweud bod gofynion iaith yn hanfodol er hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol a chefnogi hunaniaeth cymunedau lleiafrifol.

3.27 Fel y nodir uchod, byddwn yn sicrhau drwy'r broses symleiddio bod gofynion iaith yn cael eu hymgorffori yn y disgrifiadau o gymeriad gwasanaeth lle maent yn ganolog i hunaniaeth gorsaf, megis lle mae'r orsaf honno wedi'i thargedu at gynulleidfaoedd lleiafrifol penodol. Fodd bynnag, credwn ei bod yn gymesur dileu gofynion iaith mewn achosion eraill lle mae'r gofynion hynny'n seiliedig ar ymrwymiadau hanesyddol (a wnaed yn aml wrth wneud y cais) nad ydynt yn berthnasol mwyach.

3.28 Rydym yn credu, ac roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, y bydd y dull hwn yn sicrhau bod gofynion nad ydynt yn ymwneud â'r Saesneg yn gymesur ac wedi'u targedu. Rydym felly yn parhau i ystyried ei bod yn briodol cynnig amrywio trwyddedau er mwyn rhoi'r cynnig hwn ar waith.

## Safoni iaith

3.29 Fel rhan o'n dull gweithredu cyffredinol, roeddem yn cynnig safoni rhywfaint ar yr iaith sy'n cael ei defnyddio yn y disgrifiadau o gymeriad gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau radio cymunedol. Rydym yn cydnabod, os byddwn yn dileu'r agweddau eraill ar y Prif

Ymrwymiadau, y bydd y disgrifiad o gymeriad gwasanaeth yn bwysicach fyth, a'i bod felly yn bwysig sicrhau bod y disgrifiadau hyn yn glir ac yn orfodadwy.

3.30 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom egluro bod ein profiad o orfodi amodau cymeriad gwasanaeth yn dangos y gallai'r rhain fod yn anghyson rhwng gorsafoedd, yn yr iaith a ddefnyddir a hefyd yn lefel y manylder.

3.31 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn – roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn amlwg o blaid. Ymysg pethau eraill, tynnodd yr ymatebwyr hyn sylw at y ffaith y byddai'r cynnig hwn yn creu amgylchedd rheoleiddio symlach a mwy tryloyw.

3.32 Awgrymodd Better Media, wrth wrthwynebu'r cynnig, y byddai safoni'r iaith yn arwain at golli natur unigryw gorsafoedd radio cymunedol.

3.33 Fel y nodir yn ein hymgynghoriad, nid ydym yn bwriadu safoni'r iaith drwyddi draw o ran cymeriad gwasanaethau – bydd pob gorsaf yn cadw cymeriad gwasanaeth penodol ac unigryw. Bwriad ein cynnig yw sicrhau, lle mae gan orsafoedd nodweddion tebyg (er enghraifft, gorsaf ddaearyddol neu orsaf ar gyfer grŵp ethnig penodol), bod hyn yn cael ei ddisgrifio yn yr un ffordd. Credwn y bydd y dull hwn yn sicrhau cysondeb ar draws y sector heb aberthu cymeriad unigryw pob gorsaf.

3.34 Felly, rydym yn parhau i ystyried ei bod yn briodol cynnig amrywio trwyddedau i roi'r cynnig hwn ar waith fel y disgrifir yn ein hymgynghoriad.

## Asesiad effaith

3.35 Yn ein hymgynghoriad gwnaethom ddarparu ein hasesiad o effeithiau tebygol ein cynigion, gan gynnwys yr effeithiau ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.[2] Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno'n llwyr â'n hasesiad o'r effeithiau. Isod, rydym wedi crynhoi'r effeithiau posibl a nodwyd gennym a'r ymatebion sy'n ymwneud â'r effeithiau hyn.

**Yr effaith ar drwyddedeion**

3.36 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom egluro ein bod yn disgwyl i'n cynigion gael effaith gadarnhaol ar y rheini sy'n dal trwyddedau. Un o'r rhesymau canolog dros fabwysiadu'r cynigion hyn oedd rhoi mwy o hyblygrwydd i'r trwyddedeion, o ran sut maen nhw'n rheoli eu hadnoddau, a'r rhaglenni maen nhw'n eu darlledu i wasanaethu eu cymunedau. Roeddem yn cydnabod y gallai dileu cwotâu clir a phenodol effeithio'n negyddol ar rai trwyddedeion, ac roeddem yn cynnig ein hegwyddorion cydymffurfio i helpu i sicrhau bod y trwyddedeion hyn yn deall disgwyliadau Ofcom o ran sut gallai trwyddedeion gydymffurfio ag amodau eu trwydded.

3.37 Roedd mwyafrif o'r trwyddedeion a ymatebodd yn cytuno â'n hasesiad o effeithiau ein cynigion. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai dileu'r ffocws ar Brif Ymrwymiadau seiliedig ar gwotâu yn caniatáu i'r sector ymgymryd â phrosiectau creadigol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan dynnu sylw at hyn fel effaith arbennig o gadarnhaol o'n cynigion. Roedd trwyddedeion eraill yn cytuno â'n rhesymeg y byddai'r cynigion hyn yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i orsafoedd – er enghraifft, tynnodd GTFM sylw at anawsterau o ran cynnal argaeledd gwirfoddolwyr ers pandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw dilynol, gan ddadlau y byddai'r newidiadau hyn yn helpu gorsafoedd i ymdopi â'r heriau hyn yn haws.

[2] Nodwyd ein rhwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud ag asesiadau effaith yn Atodiad 2 ein hymgynghoriad.

3.38 Awgrymodd Better Media y byddai'r cynigion hyn, yn hytrach na rhoi hyblygrwydd ychwanegol i drwyddedeion, yn cynyddu'r baich gweinyddol ar drwyddedeion drwy ei gwneud yn anoddach iddynt ddangos ac adrodd ar gydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau.

3.39 Dywedodd Better Media hefyd y gallai'r cynigion hyn fygwth hyfywedd ariannol gorsafoedd radio cymunedol, gan ei gwneud yn anoddach i orsafoedd ddenu cyllid heb ofynion penodol i dynnu sylw cyllidwyr atynt.

3.40 Roeddem yn cydnabod yn ein hymgynghoriad y gallai ein newidiadau arfaethedig ei gwneud hi'n anoddach i rai trwyddedeion (gan gynnwys grwpiau penodol, fel trwyddedeion nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt) ddeall sut gallant sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Fel yr eglurwyd yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom sefydlu ein hegwyddorion cydymffurfio er mwyn egluro ein disgwyliadau o ran sut gall gorsafoedd gydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau. Fel sy'n cael ei egluro ym mharagraff 3.54 isod, rydyn ni hefyd wedi penderfynu datblygu rhai egwyddorion ychwanegol o ran cydymffurfio â gofynion budd cymdeithasol oddi ar yr awyr a ddylai roi rhagor o arweiniad i drwyddedeion. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o drwyddedai sy'n ei chael hi'n anodd deall sut y dylent gydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau, byddwn yn ystyried pa gamau y gallai fod yn briodol i ni eu cymryd yn yr amgylchiadau. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gwahodd y trwyddedai i gyfarfod cydymffurfio.

3.41 Ni chawsom ymatebion gan unrhyw drwyddedai radio cymunedol yn nodi y byddent yn ei chael hi'n anoddach dangos eu bod yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n hasesiad y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar drwyddedeion.

**Yr effaith ar gynulleidfaoedd**

3.42 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom egluro ein bod yn credu y byddai'r cynigion hyn, at ei gilydd, yn cael effaith gadarnhaol ar gynulleidfaoedd targed. Gwnaethom nodi ein barn y byddai'r cynigion yn caniatáu i drwyddedeion ganolbwyntio mwy ar wasanaethu eu cymunedau drwy ddarpariaeth budd cymdeithasol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr, a byddai hynny o fudd i gynulleidfaoedd. Roeddem yn cydnabod risg bosibl y gallai rhai gwrandawyr weld gostyngiad mewn gwasanaeth, ond yn tynnu sylw at ddiffyg tystiolaeth y byddai'r risg hon yn dod yn ffaith ac, fel uchod, gwnaethom egluro sut rydym yn bwriadu lliniaru'r risg hon drwy ein hegwyddorion cydymffurfio. Mae'r egwyddorion hyn yn nodi, ymysg pethau eraill, ein disgwyliad y bydd trwyddedeion yn parhau i ddarlledu allbwn gwreiddiol ac allbwn a gynhyrchir yn lleol yn gyson er mwyn gwireddu cymeriad eu gwasanaeth.

3.43 Er bod ein hegwyddorion cydymffurfio yn tynnu sylw at y ffyrdd roeddem yn cynnig sicrhau bod pob gorsaf radio cymunedol yn parhau i ddarparu gwasanaeth cryf, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo serch hynny y byddai'r cynigion hyn yn arwain at ostyngiad niweidiol yn faint o gynnwys perthnasol sy'n cael ei ddarparu i gymunedau, ac y byddai'n arwain yn lle hynny at fwy o awtomeiddio.

3.44 Tynnodd Better Media sylw at effaith bosibl ar grwpiau lleiafrifol, gan ddadlau y byddai trwyddedeion, heb ymrwymiadau penodol, yn darparu cynnwys prif ffrwd y gellir ei fasnacheiddio'n haws ac yn darparu llai o wasanaeth i'r grwpiau yr oeddent wedi'u trwyddedu i'w gwasanaethu. Awgrymodd hefyd y byddai dileu gofynion penodol yn ei gwneud yn anoddach i wrandawyr ddal gorsafoedd i gyfrif.

3.45 Nodwn fod rhai o'n hegwyddorion cydymffurfio wedi cael eu datblygu i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod gorsafoedd yn parhau i ddarparu gwasanaeth da i wrandawyr, gan gynnwys cynnwys sy'n darparu budd cymdeithasol ar yr awyr i wrandawyr. Yn benodol, rydym wedi nodi ein bod yn disgwyl i'r rhan fwyaf o drwyddedeion ddarlledu rhywfaint o gynnwys lleol a gwreiddiol bob dydd, gan gydnabod mai'r cynnwys hwn sy'n fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i wrandawyr a helpu i ddarparu budd cymdeithasol heb osod cwotâu rhagnodol neu fympwyol ar drwyddedeion.

3.46 Rydym yn cydnabod bod gostyngiad yn y gwasanaeth a ddarperir i wrandawyr yn dal yn risg bosibl ar ôl rhoi'r cynigion hyn ar waith. Byddwn yn monitro'r maes hwn yn ofalus i sicrhau bod trwyddedeion yn parhau i ddarparu gwasanaeth unigryw sy'n berthnasol yn lleol. Fodd bynnag, ein barn fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad yw nad yw'r drefn bresennol wedi sicrhau'r agweddau hyn ar gyflenwi, a bod y ffocws yn lle hynny wedi bod ar fodloni cwotâu penodol. Ein barn ni (ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â ni) yw y bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i drwyddedeion ac Ofcom ganolbwyntio mwy ar ddarparu budd cymdeithasol a chynnwys perthnasol o ansawdd uchel.

**Yr effaith ar sut mae Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio**

3.47 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith ein bod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi wynebu nifer cynyddol o gwynion nad yw trwyddedion yn cyflawni un neu fwy o'r cwotâu yn eu Prif Ymrwymiadau. Fe wnaethom egluro y dylai ein cynnig arwain at lai o gwynion yn ymwneud â methiant i gydymffurfio â chwotâu penodol (yn enwedig achos bach o dorri un cwota ar ddiwrnod penodol) ac felly llai o ymchwiliadau ffurfiol i faterion sy'n annhebygol o wella ansawdd y cynnwys i wrandawyr. Roeddem hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y ceisiadau a gawn i newid y Prif Ymrwymiadau yn gofyn am leihau'r gofynion allbwn gwreiddiol a/neu allbwn a gynhyrchir yn lleol.

3.48 Roedd nifer o'r trwyddedeion yn cefnogi'r asesiad hwn o'r effaith, gan dynnu sylw at yr hyn roeddent yn ei ystyried yn gwynion blinderus a oedd yn cymryd llawer o amser gan Ofcom a thrwyddedeion.

3.49 Roedd rhai trwyddedeion, a oedd yn cefnogi ein hasesiad o effaith y newidiadau hyn ar ein perfformiad o ran cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, wedi gwneud awgrymiadau ynghylch sut gallai Ofcom ddefnyddio'r adnoddau y bydd yn eu harbed drwy'r newidiadau hyn. Roedd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, er enghraifft, yn galw ar Ofcom i ddarparu cymorth i orsafoedd radio cymunedol, yn enwedig mewn perthynas â darparu newyddion a gwybodaeth leol.

3.50 Rydym wedi cydnabod ein bod yn disgwyl treulio llai o amser yn delio â chwynion seiliedig ar gwotâu neu achosion newid Prif Ymrwymiadau ar ôl rhoi'r cynigion hyn ar waith. Rydym yn ystyried hyn yn effaith gadarnhaol i'r graddau y bydd yn caniatáu i ni ganolbwyntio mwy o adnoddau ar feysydd sy'n fwy tebygol o niweidio defnyddwyr, yn hytrach na disgwyl y bydd Ofcom nawr yn gallu darparu cymorth yn uniongyrchol i'r sector radio cymunedol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid rôl Ofcom yw darparu cymorth ariannol na newyddiadurol i orsafoedd radio cymunedol a, beth bynnag, nid ydym yn arbenigwyr ar redeg na rheoli gwasanaethau radio o ddydd i ddydd.[3]

[3] Mae Ofcom yn gweinyddu'r Gronfa Radio Cymunedol, sy'n darparu grantiau i gefnogi costau craidd radio cymunedol, ar ran yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac o dan gytundeb â'r Adran honno.

3.51 Nid ydym yn credu bod yr ymatebwyr wedi codi unrhyw bwyntiau sy'n effeithio ar ein hasesiad o effaith debygol y newidiadau hyn ar sut mae Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, ar wahân i'r pwyntiau roeddem eisoes wedi'u nodi ac wedi rhoi sylw iddynt.

**Effeithiau Eraill**

3.52 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at effeithiau a allai ddeillio o'n cynigion na chawsant sylw penodol yn ein hymgynghoriad.

3.53 Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y byddai'r cynigion hyn yn cael effaith negyddol ar ddarpar wirfoddolwyr, drwy symud ffocws y Prif Ymrwymiadau oddi wrth ofynion allbwn gwreiddiol ac allbwn a gynhyrchir yn lleol, sydd fel arfer yn gofyn am fewnbwn gan wirfoddolwyr. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cysylltu hyn â risg bosibl o ran amrywiaeth y gwirfoddolwyr mewn radio cymunedol – roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai ein cynigion yn cryfhau gallu a pharodrwydd rheolwyr i wrthod darpar wirfoddolwyr.

3.54 Rydym yn cydnabod nad oedd ein hegwyddorion cydymffurfio yn mynd i'r afael yn benodol ag elfennau 'budd cymdeithasol' Prif Ymrwymiadau radio cymunedol, er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd sylfaenol darparu budd cymdeithasol i drefn trwyddedu radio cymunedol. Rydym yn hyderus na fydd trwyddedeion yn defnyddio'r cynigion hyn i dorri'n sylweddol ar gyfleoedd i wirfoddoli neu raglennu, gan fod y rhain yn ddau o bileri sylfaenol radio cymunedol. Fodd bynnag, i wneud ein disgwyliadau'n glir o ran sut mae trwyddedeion yn cyflawni eu hymrwymiadau oddi ar yr awyr, rydym wedi ychwanegu rhagor o egwyddorion cydymffurfio (g) – (l) yn Atodiad 1 isod. Mae'r egwyddorion cydymffurfio newydd hyn yn egluro'r math o ffactorau y byddwn yn eu hystyried wrth asesu a yw gorsaf yn cyflawni ei Phrif Ymrwymiadau oddi ar yr awyr.

3.55 Dywedodd Radiocentre nad oeddem wedi ystyried effaith ein cynigion ar radio masnachol, ac yn enwedig ar weithredwyr radio masnachol bach. Roedd yn dadlau y gallai'r cyfuniad o'r cynigion hyn ac ymgynghoriad diweddar yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar newidiadau i reolau cyllido radio cymunedol arwain at fwy o fasnacheiddio ar radio cymunedol, gan fygwth hyfywedd rhai gweithredwyr masnachol bach. Wrth godi'r mater hwn, galwodd Radiocentre am fonitro'r sector radio cymunedol yn briodol i sicrhau ei fod yn cadw ffocws clir ar gynnwys lleol sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn hytrach na darlledu cynnwys tebyg a deunydd masnachol ei ffocws i gystadleuwyr masnachol yn y farchnad leol.

3.56 Rydym yn cydnabod yr effaith bosibl ar weithredwyr radio masnachol a godir gan Radiocentre. Fodd bynnag, fel y nodir mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad a'r datganiad hwn, nid ydym yn disgwyl gweld newidiadau sylweddol yn y gwasanaeth a ddarperir gan y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol o ganlyniad i'r cynigion hyn, sy'n ymwneud yn hytrach â rhoi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd wrth ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaeth i'w cynulleidfaoedd. Rydym yn credu y bydd gweddill y Prif Ymrwymiadau (sy'n ymwneud â chymeriad y gwasanaeth a'r Prif Ymrwymiadau oddi ar yr awyr) yn ddigonol i sicrhau bod y sector radio cymunedol yn parhau i fod yn wahanol i radio masnachol ac yn parhau i gyflawni ar gyfer ei gynulleidfaoedd.

## Effaith ar y Gymraeg

3.57 Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom egluro nad oeddem yn disgwyl i'n cynigion gael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg, gan ein bod yn cynnig y byddai pob gorsaf sydd â rhwymedigaeth i ddarlledu yn Gymraeg ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny, drwy ychwanegu llinell at

eu disgrifiadau cymeriad y gwasanaeth. Fe wnaethom hefyd egluro, yng nghyd-destun y cynigion hyn, nad oeddem yn credu y byddai'n briodol cynnwys rhwymedigaethau iaith Gymraeg ychwanegol ar unrhyw wasanaeth.

3.58 Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, wedi rhoi sylw i'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg. O'r rhai a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn cefnogi ein cynnig i ddiogelu gofynion y Gymraeg drwy ddisgrifiadau cymeriad y gwasanaeth. Cawsom un ymateb gan randdeiliad yng Nghymru, a oedd yn cytuno â'n hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg ond yn awgrymu y dylai trwyddedeion yng Nghymru nad oes ganddynt ofynion iaith Gymraeg yn eu trwydded ystyried a fyddai'n briodol darlledu rhywfaint o gynnwys yn Gymraeg.

3.59 Efallai nad yw rhai ymatebwyr wedi deall yr agwedd hon ar ein cynigion, gan eu bod yn dadlau ar i ni gynnal ymrwymiadau iaith Gymraeg penodol i atal colli unrhyw raglenni Cymraeg. I gadarnhau, roeddem yn cynnig y bydd pob gorsaf sydd â gofynion iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn parhau i fod â'r gofynion hyn yn eu trwydded ar ôl i'r cynigion hyn gael eu rhoi ar waith.

3.60 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai fod gan bob gorsaf yng Nghymru ofynion o ran y Gymraeg, ac y dylai Ofcom ddarparu cyllid a chefnogaeth ar gyfer mwy o raglenni Cymraeg. Fel y nodir uchod, nid rôl Ofcom yw darparu cyllid a chymorth i radio cymunedol, ond yn hytrach sicrhau ei fod yn cael ei reoleiddio'n gymesur.

3.61 Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes gan Ofcom y pŵer i 'osod' gofynion iaith Gymraeg, ond yn hytrach eu cynnwys mewn trwyddedau lle mae'r trwyddedai wedi ymrwymo (fel arfer wrth wneud cais) i ddarlledu rhywfaint o gynnwys Cymraeg. Felly, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol gosod gofynion newydd ar rai trwyddedeion, er y byddem yn annog unrhyw drwyddedeion eraill yng Nghymru i ddarlledu cynnwys Cymraeg os ydynt yn dymuno, hyd yn oed pan nad oes rhaid iddynt wneud hynny drwy eu trwydded.

## Ymatebion eraill

3.62 Cododd rhai ymatebwyr faterion nad oedd yn ymddangos eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Fel arfer, roedd y rhain yn sylwadau mwy cyffredinol ar reoleiddio radio cymunedol y tu allan i'n cynigion.

3.63 Galwodd rhai ymatebwyr ar Ofcom i hysbysebu mwy o drwyddedau radio cymunedol analog. Rydym wedi egluro o'r blaen nad ydym yn bwriadu hysbysebu rhagor o drwyddedau analog ar hyn o bryd wrth i ni dargedu ein hadnoddau ar gyflwyno DAB ar raddfa fach ledled y wlad. Dyna'r sefyllfa o hyd.

3.64 Roedd nifer o orsafoedd radio cymunedol a ymatebodd yn dadlau y dylai Ofcom hefyd ddileu'r gofyniad i orsafoedd gynnal stiwdio yn eu hardal ddarlledu drwyddedig, gan ddadlau bod hyn yn ofyniad anacronistig o ystyried y cynnydd mewn technoleg darlledu o bell.

3.65 Rydym yn cydnabod y gall cyfleusterau stiwdio fod yn gost sylweddol i orsafoedd radio cymunedol, ac y gallai rhai gwirfoddolwyr fod yn gyfforddus yn darlledu o bell. Fodd bynnag, credwn fod cael stiwdio o fewn yr ardal ddarlledu drwyddedig yn bwysig er mwyn sicrhau budd cymdeithasol. Mae cyfleusterau stiwdio yn bwysig er mwyn caniatáu i wirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr gael mynediad i'r orsaf, cael hyfforddiant a chymryd rhan yn y gwasanaeth, ac er mwyn sicrhau bod yr orsaf yn atebol i'w chymuned darged.

3.66 Roedd ymateb Maxxwave yn galw am ddadreoleiddio gorsafoedd AM bron yn llwyr, ar wahân i ofynion o dan y Cod Darlledu. Roedd yn galw arnom i ddileu holl ofynion cymeriad

gwasanaeth gorsafoedd radio cymunedol AM, gan ddadlau y dylai Ofcom wneud mwy i gymell gorsafoedd i ddarlledu ar AM. Er bod defnyddio'r sbectrwm AM yn y dyfodol yn fater tymor hwy i Ofcom ei ystyried maes o law, nid ydym yn credu ei bod yn briodol dadreoleiddio gorsafoedd radio cymunedol AM drwy'r broses hon, o ystyried bod y gorsafoedd hyn yn arfer cael eu trwyddedu ac yn parhau i gael eu trwyddedu ar yr un telerau â phob gorsaf radio cymunedol arall, ac o ystyried nad ydym ar hyn o bryd yn bwriadu hysbysebu rhagor o drwyddedau am y rhesymau a nodir uchod.

3.67 Galwodd Radiocentre am ofyniad newydd ar orsafoedd radio cymunedol i ddal ffeil gyhoeddus, yn cynnwys eu Prif Ymrwymiadau a chofnodion o sut maent yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Er nad ydym am fod yn rhagnodol ynghylch y fformat a ddefnyddir gan orsafoedd i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u Prif Ymrwymiadau, rydym wedi cynnwys awgrymiadau yn ein hegwyddorion cydymffurfio ynghylch sut gall trwyddedeion wneud hyn i sicrhau eu bod yn atebol i'w cymuned darged.

3.68 Yn olaf, galwodd rhai rhanddeiliaid arnom i ailystyried ein datganiad y byddem yn asesu cydymffurfiad dros wythnos, os byddwn yn cael cwyn am gydymffurfiad gorsaf â'i Phrif Ymrwymiadau. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith y gall natur gweithrediadau gwirfoddolwyr arwain at ddarpariaeth anghyson, er enghraifft, os nad yw gwirfoddolwyr ar gael ar fyr rybudd.

3.69 Rydym yn cydnabod bod nifer o ffactorau sy'n gallu effeithio ar sut mae gorsaf yn darparu ei gwasanaeth dros wythnos benodol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn credu bod unrhyw ddull gorfodi arall (cyfnod hwy, neu asesu cydymffurfiad gorsaf mewn wythnos 'gyffredin') yn debygol o fod yn llai effeithiol, naill ai oherwydd y byddai'n draul anghymesur ar adnoddau'r trwyddedai ac Ofcom, neu oherwydd y byddai'n caniatáu i orsafoedd sy'n perfformio'n wael gyflwyno darlun mwy ffafriol o'u cydymffurfiad. Am y rhesymau hyn, byddwn yn parhau i asesu cydymffurfiad dros wythnos benodol – yn gyffredinol, yn achos cwyn, yr wythnos y codwyd y gŵyn.

## Ein penderfyniadau

3.70 Fel yr esboniwyd uchod, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r holl gynigion a nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad. Rydym yn parhau i gredu y bydd y cynigion hyn yn creu trefn fwy cymesur ar gyfer radio cymunedol, gan ganiatáu i Ofcom a gorsafoedd ganolbwyntio ar agweddau allweddol radio cymunedol fel cymeriad gwasanaeth gorsaf a darparu budd cymdeithasol ar yr awyr ac oddi ar yr awyr i'w chymuned darged. Rydym yn cydnabod pryderon rhai rhanddeiliaid ynghylch y posibilrwydd o leihau'r gwasanaeth a ddarperir i rai cynulleidfaoedd. Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y byddai'r gostyngiadau posibl hyn mewn gwasanaeth yn cael effaith arbennig o negyddol ar rai grwpiau a'u gallu i ymgysylltu â'u gwasanaeth lleol.

3.71 Tynnwyd sylw at y risgiau hyn yn ein dogfen ymgynghori, ac er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn y gwnaethom ddatblygu ein hegwyddorion cydymffurfio. Yng ngoleuni'r adborth gan rai ymatebwyr, rydym wedi datblygu'r egwyddorion hyn ymhellach i gynnwys ein disgwyliadau ynghylch sut bydd trwyddedeion yn sicrhau budd cymdeithasol oddi-ar-yr-awyr, megis mesurau hyfforddiant ac atebolrwydd. Rydyn ni'n credu y bydd yr egwyddorion diwygiedig hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i wrandawyr yn cael ei gynnal, gan roi mwy o hyblygrwydd i orsafoedd o ran rheoli eu hadnoddau a'r ffyrdd maen nhw'n dewis apelio at eu cynulleidfaoedd.

3.72 Nid ydym wedi nodi ffordd fwy priodol o gynhyrchu'r canlyniad a ddymunir, o ran yr effeithiau cadarnhaol rydym yn eu disgwyl ar gyfer trwyddedeion, gwrandawyr ac Ofcom.

Yn yr un modd, nid oedd yr ymatebion i'n hymgynghoriad yn nodi ffordd fwy priodol o ddarparu'r manteision hyn i'r sector nac yn awgrymu i ni y gallai ein cynigion fod yn anghymesur. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym yn parhau i ystyried bod ein cynigion yn ailddiffinio Prif Ymrwymiadau gorsafoedd radio cymunedol yn gymesur ac yn briodol.

3.73 Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion i symleiddio Prif Ymrwymiadau trwyddedeion radio cymunedol analog.

# 4. Y camau nesaf

4.1 Yn unol ag adran 86(5)(b) Deddf Darlledu 1990, byddwn ni'n mynd ati i ysgrifennu at yr holl drwyddedeion radio analog cymunedol i ddechrau ar y broses o amrywio trwyddedau'n ffurfiol a chyflwyno disgrifiad drafft newydd o gymeriad y gwasanaeth. Bydd y rhain yn seiliedig ar y disgrifiad o gymeriad y gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gynnwys ym mhob trwydded unigol ac, fel yr eglurwyd uchod, byddwn yn cynnig bod y Prif Ymrwymiadau yn cynnwys geiriad safonol ac unrhyw agweddau ar raglenni yr ydym ni'n ystyried eu bod yn rhan bwysig o gymeriad yr orsaf. Fel arall, byddwn yn cynnig dileu'r Prif Ymrwymiadau seiliedig ar gwota.

4.2 Byddwn yn gofyn am sylwadau gan bob trwyddedai ar ei gymeriad gwasanaeth diwygiedig arfaethedig, ac yn croesawu sylwadau trwyddedeion am eu hymrwymiadau ar eu newydd wedd. Byddwn yn ysgrifennu at drwyddedeion drwy'r post yn eu cyfeiriad cofrestredig ac yn anfon copi o'r llythyr drwy e-bost at y cyswllt trwydded sydd gennym ar ffeil. Rydym yn atgoffa trwyddedeion y dylent ddiweddaru eu manylion cyswllt gydag Ofcom ac anfon e-bost at broadcast.licensing@ofcom.org.uk os yw'r rhain wedi newid cyn i'r broses amrywio ddechrau.

4.3 Lle mae trwydded yn meddu ar drwydded gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol (C-DSP) cyfatebol, efallai y byddwn yn ceisio amrywio Prif Ymrwymiadau'r gwasanaeth hwnnw pan fydd newidiadau i gymeriad y gwasanaeth yn effeithio ar y gwasanaeth C-DSP cyfatebol.

4.4 Rydym yn disgwyl rhoi o leiaf bythefnos i drwyddedeion gyflwyno sylwadau i Ofcom. Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer sylwadau fynd heibio ac ar ôl i ni ystyried unrhyw sylwadau, byddwn yn penderfynu a ddylid amrywio pob trwydded a sut i wneud hynny, naill ai'n unigol neu mewn swp, yn dibynnu ar yr amseru a'r ffactorau adnoddau. Byddai'r Prif Ymrwymiadau wedi'u hamrywio yn dod i rym ar gyfer pob trwyddedai ar ddyddiad unrhyw Hysbysiad Amrywio y bydd Ofcom yn ei gyhoeddi ar ddiwedd y broses. Tan y dyddiad hwn, mae'r Prif Ymrwymiadau presennol yn dal mewn grym.

# A1. Egwyddorion cydymffurfio

Yn ein hymgynghoriad, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o egwyddorion cydymffurfio arfaethedig, sydd wedi'u dylunio i amlinellu rhai o'r pethau y byddem yn eu hystyried wrth adolygu cwynion am gydymffurfiad gorsaf â'i rhwymedigaethau o ran cymeriad y gwasanaeth. Yn dilyn awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr, rydym wedi datblygu rhai egwyddorion ychwanegol o ran cydymffurfio â gofynion budd cymdeithasol oddi ar yr awyr. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u nodi'n llawn yma, fel eu bod yn gyflawn.

a) Dull Ofcom o asesu cwynion am gydymffurfiad gorsafoedd â'u Prif Ymrwymiadau yw asesu cydymffurfiad dros wythnos, gan ddefnyddio recordiadau a gwybodaeth ysgrifenedig wedi'u darparu gan yr orsaf.

b) Wrth ystyried cydymffurfiad â rhwymedigaethau cymeriad y gwasanaeth, dylai gorsafoedd sicrhau ei bod yn glir o wrando ar eu cynnwys pwy yw eu cymuned darged bob amser (neu'r rhan fwyaf o'r amser o leiaf). Rydyn ni'n disgwyl y byddai gorsaf sydd wedi'i hanelu at leiafrif ethnig penodol, er enghraifft, yn swnio'n wahanol i orsaf sydd â chymeriad gwasanaeth 'prif ffrwd'.

c) Pan nad yw pob rhaglen yn cael ei chreu'n benodol ar gyfer eu cymuned darged, dylai trwyddedeion ystyried y gyfran o'r gwasanaeth sy'n cael ei rhoi i wahanol agweddau ar raglennu. Er enghraifft, dylai trwyddedeion ystyried faint o raglenni syndicet neu gerddoriaeth gefn wrth gefn maen nhw'n eu darlledu o'i gymharu â chynnwys sydd wedi cael ei greu'n wreiddiol.

d) I wasanaethu'r gymuned darged, mae cael cyflwynwyr o'r gymuned darged yn ddymunol o ran darparu cynnwys perthnasol i gyflawni cymeriad y gwasanaeth a chyflawni amcanion yr orsaf o ran budd cymdeithasol. Beth bynnag, dylai rhaglenni apelio at y gymuned darged ac adlewyrchu cymeriad y gwasanaeth.

e) Lle cyfeirir at raglenni arbenigol/penodol yng nghymeriad gwasanaeth gorsaf, rydyn ni'n cydnabod y gallai hynny fod yn rhan fach yn unig o raglenni cyffredinol gorsaf. Fodd bynnag, dylai trwyddedeion sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cael eu darlledu'n gyson, eu hamserlennu'n briodol, a bod cyfeiriadau priodol atynt i wneud yn siŵr bod gwrandawyr yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu elwa ohonynt. Er enghraifft, dylai gorsafoedd sy'n cynnwys cyfeiriad at iechyd a lles yng nghymeriad eu gwasanaeth ystyried sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws yr amserlen, gan ystyried pa ddiwrnodau o'r wythnos ac adegau o'r dydd sydd fwyaf priodol i ddarlledu'r cynnwys, a sut mae rhaglenni o'r fath yn cael eu hyrwyddo ar yr awyr.

f) Er ein bod yn cynnig cael gwared o'r Prif Ymrwymiadau ar y cwotâu penodol sy'n ymwneud ag allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol, rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o orsafoedd yn parhau i ddarlledu rhywfaint o allbwn gwreiddiol ac allbwn wedi'i gynhyrchu'n lleol bob dydd.[4] Yn gyffredinol, byddem yn credu y byddai gorsaf nad yw'n darlledu unrhyw gynnwys o'r math hwn yn ei chael hi'n anodd cyflawni cymeriad ei gwasanaeth a chreu budd cymdeithasol i'w chymuned darged. Os bydd Ofcom yn asesu cydymffurfiad trwyddedai â'i Brif Ymrwymiadau (o ganlyniad i gŵyn neu waith monitro),

[4] I'r perwyl hwn, rydym yn diffinio allbwn gwreiddiol fel cynnwys sy'n cael ei greu gan yr orsaf a'i ddarlledu am y tro cyntaf, ac allbwn sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol fel cynnwys sy'n cael ei greu a'i ddarlledu o ardal ddarlledu'r orsaf.

rhaid i drwyddedai allu dangos i Ofcom sut mae swmp y cynnwys gwreiddiol a chynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol y mae'n ei ddarlledu yn ei alluogi i gyflawni ei ymrwymiadau o ran cymeriad y gwasanaeth a budd cymdeithasol.

g) Mae'n ofynnol i orsafoedd hwyluso trafodaeth a mynegi barn, o ran caniatáu i gyflwynwyr ddefnyddio'r orsaf fel llwyfan i fynegi barn, ond hefyd i annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan mewn trafodaeth. Gellid hwyluso hyn drwy wahanol fathau o raglenni llafar sy'n gwahodd ac yn adlewyrchu barn cynulleidfaoedd (sesiynau ffonio-i-mewn/cyfryngau cymdeithasol ac ati) neu sioeau sy'n dangos cynnwys am faterion cyfoes, neu gyda gogwydd newyddiadurol. Gellid ei gyflawni hefyd drwy ddigwyddiadau oddi ar yr awyr fel fforymau cymunedol.

h) Un o brif ddibenion radio cymunedol yw darparu addysg a/neu hyfforddiant i wirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned. Dylai gorsafoedd ystyried sut maen nhw'n cynnal hyfforddiant – pa mor rheolaidd, pa fathau o hyfforddiant maen nhw'n eu cynnig (a allai fod yn gyfuniad o sgiliau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr), a sut maen nhw'n gwneud aelodau o'r gymuned yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael. Dylai gorsafoedd roi blaenoriaeth i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i aelodau lleol o'u cynulleidfa darged.

i) Mae nifer o ffyrdd y gall gorsaf hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'i chymuned darged, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: rhaglenni llafar sy'n canolbwyntio ar y gymuned, cynnal digwyddiadau neu fforymau oddi ar yr awyr, cynnal diwrnodau agored neu ymestyn cyfleoedd am gyfweliad darlledu i wahanol grwpiau cymunedol. Dylai gorsafoedd ymdrechu, lle bo hynny'n bosibl, i sicrhau bod gwirfoddolwyr o bob rhan o'u cymuned darged yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwasanaeth.

j) Wrth geisio sicrhau bod aelodau o'r gymuned darged yn cyfrannu at weithredu a rheoli'r gwasanaeth, dylai gorsafoedd ystyried eu cyfleoedd hyfforddi a sut mae'r rhain yn cyfrannu at weithrediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae hyn nid yn unig yn golygu hyfforddi cyflwynwyr ar yr awyr, ond hefyd darparu hyfforddiant ar gyfer rolau oddi ar yr awyr, a allai gynnwys cadw llyfrau, gwerthu hysbysebion, cydlynu gwirfoddolwyr, codi arian, hyfforddi arweinwyr neu amrywiaeth o rolau eraill. Dylai gorsafoedd hefyd sicrhau bod aelodau o'r gymuned darged yn gallu cyfrannu at sut mae gorsaf yn cael ei rheoli – gallai hyn fod drwy gynnal etholiadau ar gyfer rolau arwain, sefydlu a defnyddio grwpiau cynghori sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned darged neu drwy gael mecanweithiau i wirfoddolwyr gyfrannu at drafodaethau rheoli, ymysg pethau eraill.

k) Dylai gorsafoedd sicrhau eu bod yn atebol i'w cymuned darged, yn y gwasanaeth ar yr awyr maent yn ei ddarparu ac yn eu gweithgareddau oddi ar yr awyr. Gallai trwyddedeion ystyried rhoi cyhoeddusrwydd i'w Prif Ymrwymiadau, cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol agored gyda chofnodion sydd ar gael i'r cyhoedd, darparu cyfleoedd rheolaidd i roi adborth ar y cynnwys maen nhw'n ei ddarlledu, neu gyhoeddi adroddiadau am eu gweithgareddau er mwyn i'r gymuned gael gafael arnynt, ymysg pethau eraill.

l) Yn yr un modd â pherfformio ar yr awyr, rydym o'r farn mai gorsafoedd radio cymunedol, ar y cyfan, sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i drefnu eu darpariaeth budd cymdeithasol oddi ar yr awyr mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion eu cymuned darged orau. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i orsafoedd allu egluro'n fanwl sut maent yn bodloni'r gofyniad hwn os gofynnir iddynt, yn ogystal â gallu darparu tystiolaeth/enghreifftiau perthnasol i Ofcom i ddangos eu hymrwymiad i fudd cymdeithasol.